Canolfan Mileniwm Cymru, Bute Place, Caerdydd, CF10 5AL
029 2030 0331
info@hijinx.org.uk
@HijinxTheatre
/HijinxTheatre

Tachwedd 2024

Croeso

**Pecyn Recriwtio Ymddiriedolwyr**
**(Sylwer os gwelwch yn dda mai gwirfoddol yw swyddi Ymddiriedolwyr ac felly yn ddi-dâl, ond gellir talu treuliau rhesymol)**

Diolch am roi amser i ddysgu rhagor am ymuno â Bwrdd Ymddiriedolwyr Hijinx. Rydym wedi cyffroi o gael rhannu mwy gyda chi!

Yn y pecyn hwn fe welwch chi wybodaeth gefndirol am Hijinx, manylion llawn y swydd a sut i ymgeisio.

Rydym yn sefydliad sydd wedi ymrwymo’n llwyr i’r hyn yr ydym yn ei wneud ac mae gennym ymdeimlad cryf o gymuned. Fel tîm rydym yn poeni am deulu ehangach Hijinx ac mae gennym ddiwylliant cynnes, cyfoethog a chefnogol sy’n gadael i bobl fyw eu bywydau gorau, mwyaf dilys. Rydym yn gweithio’n galed, yn chwarae’n galed ac yn chwerthin llawer!

Mae ein hymddiriedolwyr yn ganolog i’n llwyddiant, gan ddarparu’r sgiliau, profiad a goruchwyliaeth strategol i helpu’r cwmni ffynnu.

Os oes arnoch angen rhagor o wybodaeth neu gefnogaeth cyn ymgeisio, neu i drafod unrhyw addasiadau rhesymol neu ystyriaethau mynediad er mwyn caniatáu i chi gymryd rhan lawn yn y broses gyfweld, cysylltwch â ni ar eloise.tong@hijinx.org.uk

Diolch am eich amser – rydym yn gwirioneddol edrych ymlaen at gael clywed gennych ac archwilio sut y gall eich sgiliau, profiadau ac angerdd wneud gwahaniaeth gwirioneddol i’n gwaith.

Eloise Tong
Prif Weithredwraig Dros Dro

Cofrestrwyd Hijinx yng Nghymru a Lloegr Rhif 2161783

Elusen Gofrestredig rhif 1078358

Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales

Noddir gan Lywodraeth Cymru
Sponsored by Welsh Government

Canolfan Mileniwm Cymru, Bute Place, Caerdydd, CF10 5AL
029 2030 0331
info@hijinx.org.uk
@HijinxTheatre
/HijinxTheatre

## Ein Gweledigaeth

Byd lle mae'r celfyddydau a chymdeithas yn hollol gynhwysol i bobl ag anabledd dysgu a/neu Awtistig.

## Ein Cenhadaeth

Arloesi, cynhyrchu a hyrwyddo cyfleoedd proffesiynol a chyfranogol yn y celfyddydau a'r diwydiannau creadigol i bobl ag anabledd dysgu a/neu Awtistig.

## Am Hijinx

Mae Hijinx yn creu theatr gyffrous a chwyldroadol sydd wedi ennill clod ar draws y Deyrnas Unedig, Ewrop ac yn rhyngwladol, lle mae artistiaid gydag anableddau dysgu a/neu awtistiaeth yn cyfrannu ar bob cam o'r ffordd wrth greu a pherfformio eu storïau.

Mae Academïau Hijinx yn cynnig yr unig gwrs hyfforddi perfformio proffesiynol yng Nghymru i actorion ag anabledd dysgu a/neu awtistiaeth ac rydym yn cynnig cyfleoedd na fyddech yn dod o hyd iddyn nhw yn unrhyw le arall. Rydym yn rhedeg pum Academi ar draws Cymru, gyda dros 60 o Actorion dan hyfforddiant.

Ochr yn ochr â hyn mae gennym raglen ffilmiau gynyddol a chynnig cymunedol ac allestyn deinamig (PAWB). Trwy Actorion Hijinx rydym yn hyrwyddo ein hactorion i'r diwydiannau celfyddydol a chreadigol ehangach, yn ogystal â chynnig gwaith uniongyrchol yn ein hyfforddiant cyfathrebu sydd wedi ennill gwobrau.

Mae Hijinx yn cydnabod, parchu a gwerthfawrogi gwahaniaethau unigolion. Rydym wedi ymrwymo i les ein staff, i fod yn gyflogwr Cyfle Cyfartal, a denu talent amrywiol o rannau o'r gymuned nad ydynt wedi eu cynrychioli'n ddigonol yn y sector diwylliant i'n helpu i ddatblygu gweithlu mwy amrywiol.

## Rydym yn creu newid trwy fyw ac anadlu ein nodau sefydliadol i...

- Gynyddu cynrychiolaeth pobl ag Anabledd Dysgu a/neu Awtistig ar y llwyfan a'r sgrin.
- Darparu, hyrwyddo a hwyluso gwaith proffesiynol i weithwyr creadigol proffesiynol anabl a/neu Awtistig.
- Cynyddu hyder, hapusrwydd ac annibyniaeth.
- Trawsnewid y sector i weithio'n fwy cynhwysol.
- Cynyddu mynediad at gelfyddydau perfformio i gynulleidfaoedd a chymunedau yng Nghymru.

Cofrestrwyd Hijinx yng Nghymru a Lloegr Rhif 2161783

Elusen Gofrestredig rhif 1078358

Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales

Noddir gan Lywodraeth Cymru
Sponsored by Welsh Government

Canolfan Mileniwm Cymru, Bute Place, Caerdydd, CF10 5AL
029 2030 0331
info@hijinx.org.uk
@HijinxTheatre
/HijinxTheatre

**Ynglŷn â Bod yn Ymddiriedolwr**

Mae ymuno â Bwrdd yr Ymddiriedolwyr yn Theatr Hijinx yn cynnig cyfle cyffrous i gyfrannu at gymuned gelfyddydol ddeinamig a chynhwysol. Rydym yn chwilio am unigolion sy'n barod i gynnig safbwyntiau a dealltwriaeth newydd, wedi eu meithrin trwy brofiadau bywyd a phroffesiynol.

Boed yn brofiadol mewn swyddi ar fyrddau neu yn ystyried bod yn ymddiriedolwr am y tro cyntaf, bydd eich cyfraniad yn hanfodol wrth ein helpu i fynd trwy a chyfoethogi tirwedd theatr gynhwysol, gan wneud gwahaniaeth gwirioneddol yn y cymunedau yr ydym yn eu gwasanaethu.

Rydym yn awyddus i glywed gan ymgeiswyr sydd heb gael eu cynrychioli'n ddigonol yn Hijinx ac yn y diwydiant celfyddydol oherwydd rhwystrau yn gysylltiedig ag ethnigrwydd, dosbarth, anabledd, rhyw, daearyddiaeth, rhywioldeb, oedran a chrefydd. Mae gennym ddiddordeb neilltuol mewn unigolion sy'n dwyn setiau penodol o sgiliau sy'n gyson â'n hanghenion:

- Cynllunio Strategol
- Anabledd, Hygyrchedd a Chynhwysiant
- Y Gymraeg
- Prosiectau Cyfalaf
- Codi Arian a Rhoi Gan Unigolion
- Adnoddau Dynol
- Ymgysylltiad Cymunedol
- Marchnata a Chyfathrebu
- Cynaliadwyedd, Argyfwng Hinsawdd a/neu Gyfiawnder Hinsawdd
- Artist/Gweithiwr Creadigol Gweithredol
- Cyllid

Canolfan Mileniwm Cymru, Bute Place, Caerdydd, CF10 5AL
029 2030 0331
info@hijinx.org.uk
@HijinxTheatre
/HijinxTheatre

## EIN BWRDD

Mae ein Bwrdd Ymddiriedolwyr presennol yn Hijinx yn cynnwys unigolion o gefndiroedd amrywiol, pob un yn dwyn eu profiadau a'u harbenigedd unigryw. Mae eu sgiliau gyda'i gilydd yn ymdrin â meysydd fel cynhyrchu theatr, ymgysylltu cymunedol, llywodraethiant a chyllid, oll wedi eu huno ag angerdd dros gelfyddydau cynhwysol sy'n cael effaith.

Mae ein Hymddiriedolwyr yn chwarae rhan hanfodol wrth siapio cyfeiriad ac ethos Theatr Hijinx, gan sicrhau ein bod yn cadw at ein cenhadaeth o gynhwysiant a rhagoriaeth yn y celfyddydau.

## PROFIADAU YMDDIRIEDOLWYR

*"Rwyf wrth fy modd yn bod yn Ymddiriedolwr Hijinx. Mae'n fraint gallu cefnogi'r sefydliad gwych hwn, gan helpu lle gallaf, a chael fy synnu yn gyson gan ba mor wych yw'r tîm. Mae bod yn ymddiriedolwr yn gyfle mor rhyfeddol. Rwyf wedi bod yn lwcus i ddysgu llawer gan dîm Hijinx."*

*"Mae bod yn ymddiriedolwr i Hijinx wedi helpu i gynyddu fy hyder a gwella fy sgiliau cyfathrebu a dadansoddi. Rwyf hefyd wedi mwynhau'r cyfle i ddefnyddio fy ngwybodaeth fel cyfreithiwr i ddatblygu atebion ymarferol a gwneud penderfyniadau masnachol."*

## YR YMDDIRIEDOLWYR PRESENNOL

- Richard Miles-Thorne, 2016
- Tom Curteis, 2020
- Nia Morgan, 2020
- Edward Talfan, 2020
- Selma Dimitrijevic, 2020 (Cadeirydd Dros Dro)
- Menna Chmielewski, 2021
- Richard Marsh (trysorydd), 2023
- Allison Powell, 2023
- Alison Frater, 2024
- Jordan Woodley, 2024
- Andrew Healy, 2024
- Dylan Tozer, 2024
- Yvonne Odukwe, 2024

## YR HYN YR YDYM YN CHWILIO AMDANO MEWN YMDDIRIEDOLWR

Rydym yn chwilio am Ymddiriedolwyr sy'n gallu cymysgu angerdd dros gynhwysiant â gallu strategol a meddwl llawn dychymyg. Nid ymwneud â llywodraethiant yn unig y mae eich swydd;

Canolfan Mileniwm Cymru, Bute Place, Caerdydd, CF10 5AL
029 2030 0331
info@hijinx.org.uk
@HijinxTheatre
/HijinxTheatre

mae'n ymwneud ag ysbrydoli a meithrin creadigrwydd ym mhopeth a wnawn a chysylltu gyda'n tîm staff a'n gwirfoddolwyr mewn ffyrdd ystyrlon.

Yn eich swydd fel Ymddiriedolwr byddwch yn llywio Hijinx tuag at ei genhadaeth sy'n ysbrydoli. Byddwch yn ymwneud â chynllunio strategol, cynnal ein henw da a sicrhau ein bod yn cydymffurfio yn ariannol a chyfreithiol.

Rydym yn chwilio am Ymddiriedolwyr gyda'r nodweddion canlynol:

- Gallu cadarn i wneud penderfyniadau.
- Sgiliau creadigol ac i ddatrys problemau.
- Cryfderau gwaith tîm a chydweithio.
- Gallu cyfathrebu rhyngbersonol cadarn.
- Ymrwymiad dwfn i degwch, amrywiaeth a chynhwysiant.
- Dibynadwyedd a'r gallu i ennyn parch.
- Gwybodaeth a pharch i oblygiadau cyfreithiol Ymddiriedolwr.
- Ymrwymiad i fuddsoddi'r amser a'r ymdrech gofynnol.
- Deall a hyrwyddo Cod Llywodraethiant Elusennau.
- Yn awyddus i ddilyn a chefnogi hyfforddiant a datblygu parhaus i'ch hun a'r bwrdd yn y meysydd cydymffurfio allweddol.

Byddai eich ymrwymiad fel Ymddiriedolwr yn Hijinx yn golygu:

- Tymor o flwyddyn i gychwyn, gyda'r ailbenodiadau yn digwydd yn flynyddol yn ein Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol. Rydym yn awyddus i'n Hymddiriedolwyr ymrwymo i leiafswm o dair blynedd, gan feithrin parhad a dyfnder yn eu swyddi. Mae'r dull hwn yn rhoi lle i ymgysylltu parhaus a chael effaith cryfach ar gyfeiriad a nodau'r theatr.
- Cymryd rhan mewn pedwar Cyfarfod Bwrdd 2 awr yn flynyddol a diwrnod cynllunio blynyddol.
- Mynychu digwyddiadau, gan gynnwys dangosiadau cyntaf a pherfformiadau eraill, i ymgysylltu'n llawn â gweithgareddau Theatr Hijinx.
- Cyfrannu at un o Bwyllgorau'r Bwrdd, sy'n golygu pedwar cyfarfod y flwyddyn yn nodweddiadol.
- Ymuno â hyfforddiant y Bwrdd yn ôl y gofyn.
- Cynnig eich arbenigedd mewn maes penodol pan fydd angen.
- Hyrwyddo a chefnogi cenhadaeth, gwerthoedd a nodau strategol Hijinx yn weithredol.

Yn gyffredinol mae Ymddiriedolwyr Theatr Hijinx yn rhoi tua 8 diwrnod y flwyddyn i'w swydd yn nodweddiadol.

Cofrestrwyd Hijinx yng Nghymru a Lloegr Rhif 2161783

Elusen Gofrestredig rhif 1078358

Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales

Noddir gan Lywodraeth Cymru
Sponsored by Welsh Government

Canolfan Mileniwm Cymru, Bute Place, Caerdydd, CF10 5AL
029 2030 0331
info@hijinx.org.uk
@HijinxTheatre
/HijinxTheatre

## SUT I YMGEISIO

Os credwch eich bod chi yn addas ar gyfer y swydd ac y byddech yn hoffi ymgeisio, anfonwch y canlynol atom:

- CV cyfredol yn dweud wrthym amdanoch chi – a pham eich bod yn teimlo mai chi yw'r person iawn ar gyfer y swydd, gan sicrhau eich bod yn amlygu eich profiad, sgiliau a chymwysterau perthnasol. Anfonwch hwn ar ffurf dogfen Word, os gwelwch yn dda.

- Llythyr esboniadol o ddim mwy na dwy ochr – yn dweud wrthym pam mai chi yw'r ymgeisydd iawn a sut y byddech yn mynd ati i ymdrin â chyfrifoldebau'r swydd neu fideo o ddim mwy na 5 munud.

- Ffurflen Monitro Amrywiaeth wedi ei llenwi – i'w llenwi ar-lein yma cadarnhewch yn y llythyr esboniadol eich bod wedi llenwi'r ffurflen hon.

Dylid anfon ceisiadau at eloise.tong@hijinx.org.uk erbyn y dyddiad cau.

**Bydd y ceisiadau'n cau am hanner nos ar 31 Ionawr 2025.**

## AMRYWIAETH A CHYNHWYSIANT

Os oes gennych unrhyw anghenion hygyrchedd, angen unrhyw addasiadau rhesymol eraill, neu angen y wybodaeth am y swydd ar fformat gwahanol, cysylltwch â ni ar eloise.tong@hijinx.org.uk

## Y BROSES RECRIWTIO

- Ar ôl y dyddiad cau byddwn yn dilyn y broses ganlynol:

- Bydd y ceisiadau'n cael eu hadolygu gan banel o Ymddiriedolwyr, ein hymgynghorydd adnoddau dynol a'r Prif Weithredwr.
- Gwahoddir ymgeiswyr ar y rhestr fer i gael sgwrs fer anffurfiol gydag aelodau'r bwrdd.
- Gwahoddir ymgeiswyr i arsylwi ar gyfarfod y bwrdd (Chwefror).
- Gwahoddir ymgeiswyr sydd â diddordeb wedyn i gyfweliad mwy ffurfiol gydag aelodau'r bwrdd.
- Bydd ymddiriedolwyr newydd yn cael eu derbyn i'r bwrdd trwy bleidlais yn y cyfarfod nesaf sydd ar gael.

Cofrestrwyd Hijinx yng Nghymru a Lloegr Rhif 2161783

Elusen Gofrestredig rhif 1078358

Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales

Noddir gan Lywodraeth Cymru
Sponsored by Welsh Government

Canolfan Mileniwm Cymru, Bute Place, Caerdydd, CF10 5AL
029 2030 0331
info@hijinx.org.uk
@HijinxTheatre
/HijinxTheatre

## MWY AM HIJINX

Mae Hijinx yn ecosystem gynhwysol sy'n ffynnu, gydag amrywiaeth eang o weithgareddau wedi eu dylunio'n ofalus i weithio i wireddu ein gweledigaeth o fyd lle mae'r celfyddydau a chymdeithas yn hollol gynhwysol i bobl ag Anabledd Dysgu a/neu Awtistig.

Trwy ein hyfforddiant, cynyrchiadau, gwaith, cynrychiolaeth broffesiynol, a chefnogaeth, rydym wedi creu llwybr i bobl ag anabledd dysgu a/neu awtistig i ddod yn berfformwyr proffesiynol. Ers cyflwyno Academïau Hijinx yn 2012, rydym wedi gweld y llwybr hwn yn tyfu, gan ymateb ac addasu i anghenion ein hartistiaid a'r newidiadau yn y sector.

Mae ein hallbwn creadigol wedi ei seilio ar ein hartistiaid, gan eu dwyn at ei gilydd gydag amrywiaeth o weithwyr creadigol proffesiynol, i greu gwaith sy'n fentrus a dilys.

Er mwyn cyflawni ein gweledigaeth rydym yn gweithredu ar draws pum ffrwd benodol, yr ydym yn eu galw yn dai:

- Academi
- Swyddi – Castio a Hyfforddiant Cyfathrebu
- Pawb
- Theatr - gan gynnwys Gŵyl Undod
- Ffilm

Mae gan bob tŷ ei staff penodol sy'n cael eu cefnogi gan ein tîm staff canolog.

ACADEMI
Academïau Hijinx yw sylfaen y cwmni, yn cynnig yr unig gwrs hyfforddi perfformio proffesiynol yng Nghymru i actorion ag anabledd dysgu a/neu awtistiaeth i ddod yn berfformwyr proffesiynol.

SWYDDI: CASTIO
Actorion Hijinx yw'r safle castio mwyaf yn y Deyrnas Unedig sydd wedi ei ddynodi ar gyfer actorion ag anabledd dysgu a/neu awtistig. Rydym yn hyrwyddo dros 60 o actorion o bob rhan o Gymru. Rydym yn cefnogi ein hartistiaid trwy bob cam yn y broses, o'r clyweliad i sicrhau bod hwylusyddion creadigol ar gael petai ar ein hartistiaid eu hangen i gyflawni eu swydd.

SWYDDI: HYFFORDDIANT CYFATHREBU
Mae ein portffolio hyfforddiant cyfathrebu prysur sydd wedi ei wobrwyo yn rhoi swyddi i artistiaid Hijinx a gweithwyr proffesiynol creadigol ar draws Cymru a thu hwnt. Rydym yn gweithio yn yr ystafell ac ar-lein i helpu cwmnïau i gyfathrebu a dangos eu hymrwymiad i gynhwysiant ac amrywiaeth.

Trwy ein hyfforddiant rydym yn:

Cofrestrwyd Hijinx yng Nghymru a Lloegr Rhif 2161783

Elusen Gofrestredig rhif 1078358

Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales

Noddir gan Lywodraeth Cymru
Sponsored by Welsh Government

- Cynyddu'r nifer o swyddi actio â thâl proffesiynol i Actorion Hijinx.
- Gwella'r ffordd y mae'r cyhoedd yn cyfathrebu gyda phobl fregus a chynyddu cynrychiolaeth pobl ag anabledd dysgu ag awtistig.
- Creu incwm i Hijinx

PAWB
Pobl a chymunedau sy'n ganolog i Pawb. Trwy ein gwaith cymunedol rydym yn anelu at bob unigolyn ag anabledd dysgu a/neu awtistiaeth yng Nghymru i gael ei werthfawrogi a'i barchu fel crëwr/gwneuthurwr/actor.

Rydym yn gwneud hyn trwy:

- Sylfeini Drama
- Theatr Pobl Ifanc
- Theatr Gymunedol
- Cerddoriaeth Gymunedol
- Llwybrau
- Allestyn Rhyngwladol

THEATR
Rydym yn creu theatr gyffrous, chwyldroadol o raddfa fawr i fach ar gyfer lleoliadau dan do, awyr agored a digidol. Mae ein theatr yn cyrraedd cynulleidfaoedd lleol, cenedlaethol a rhyngwladol. Mae artistiaid gydag anableddau dysgu a/neu awtistiaeth yn cyfrannu ar bob cam o'r ffordd wrth greu a pherfformio eu storïau.

Mae ein Gweledigaeth a Phroses Artistig, ynghyd â'n fframwaith rhaglennu sydd wedi ei adnewyddu (gweler y dudalen nesaf) yn sicrhau bod Hijinx yn dyfeisio, cynhyrchu a theithio gyda rhythm cyson o waith mentrus, heriol a dilys.

THEATR - GŴYL UNDOD
Wedi ei chreu yn 2008, Gŵyl Undod yw un o wyliau celfyddydol cynhwysol ac anabledd mwyaf Ewrop a'r unig un o'i math yng Nghymru.

FFILM
Rydym yn defnyddio'r un agwedd at ffilmiau ac yr ydym at theatr: ein hactorion sy'n ganolog, eu lleisiau yn allweddol i greu profiad gwylio sy'n hollol wahanol. Rydym yn asiantau dros newid yn y diwydiant teledu a ffilm, gan ymdrechu i gael mwy o gyfleoedd i'n hartistiaid.

Ers 2019 rydym wedi cychwyn ar gynyrchiadau ffilmiau byr blynyddol, hyd yn oed yn ystod y cyfnod clo, ac rydym nawr yn gweithio gyda nifer o bartneriaid cynhyrchu profiadol i wneud ein ffilm hir gyntaf.

Canolfan Mileniwm Cymru, Bute Place, Caerdydd, CF10 5AL
029 2030 0331
info@hijinx.org.uk
@HijinxTheatre
/HijinxTheatre

PROSIECTAU THEATR

Dros y 5 mlynedd nesaf mae gennym raglen gyffrous o'n cynyrchiadau theatr teithiol ein hunain a phrosiectau ar y cyd â chynhyrchwyr o Gymru a rhai rhyngwladol, a'r cynlluniau ar gyfer ein ffilm hir gyntaf erioed.

- Sherman Cymru (2023) Housemates - ar gyfer y brif theatr, ar sail stori Ysbyty Trelái.
- Theatr Iolo (2026) Sioe newydd i gynulleidfaoedd ifanc
- Theatr Clwyd (2027) Sioe newydd a ddatblygwyd ochr yn ochr â'n Hacademi yng ngogledd Cymru

RHYNGWLADOL

Meet Fred (2024) ar y cyd â'r Wooran Foundation i gynhyrchu fersiwn De Korea o'n sioe boblogaidd.

Compagnie L'Oiseau Mouche (2024) Cywaith rhwng Cymru a Ffrainc i greu darn newydd o theatr pypedau, i deithio yn Ffrainc a'r Deyrnas Unedig.

Danza Mobile (2025/26) Cywaith rhwng Cymru a Sbaen
Cywaith i greu perfformiad stryd newydd ar gyfer Gŵyl Escena Mobile, Seville.

DIGWYDDIAD CARREG FILLTIR

Bydd ein Cynllun Artistig 5 mlynedd yn adeiladu at gynhyrchiad penodol i safle fydd yn garreg filltir i ni ar y cyd â Theatr Genedlaethol Cymru (2028). Bydd y cynhyrchiad hwn yn cynnwys pob un o'r 60 a mwy o artistiaid o Gymru gyfan.

FFILM HIR

Yn ychwanegol at hyn byddwn yn cynhyrchu ein ffilm hir gyntaf. Wedi ei bwriadu ar gyfer 2024/25 ar hyn o bryd, bydd Being Normal yn cael ei chyfarwyddo gan Dylan Wyn Richards gyda'r partneriaid cynhyrchu Triongl a Raindog wedi cytuno i gydweithio ar hyn o bryd.

Canolfan Mileniwm Cymru, Bute Place, Caerdydd, CF10 5AL
029 2030 0331
info@hijinx.org.uk
@HijinxTheatre
/HijinxTheatre

# EIN NODAU AC AMCANION STRATEGOL

Mae'r cynllun hwn yn canolbwyntio ar y cyfnod hyd 2027 ac fe'i datblygwyd gan dîm Hijinx trwy raglen ddatblygu strategol gadarn gyda Pilotlight, gyda chefnogaeth gan Wobrau Elusen Weston.

Mae wedi cael ei greu, fodd bynnag, yng nghyd-destun ein huchelgeisiau yn y tymor hwy.

MEWN DENG MLYNEDD BYDDWN...

- Yn cael ein hadnabod fel theatr gynhwysol genedlaethol Cymru - yn ein cynrychioli yn rhyngwladol a gartref
- Wedi creu hwb ar gyfer perfformio cynhwysol yng Nghymru a chartref parhaol i Hijinx
- Wedi sefydlu cynulleidfa sydd wedi ymgysylltu a theyrngar sy'n adlewyrchu amrywiaeth Cymru ac yn cyrraedd cynulleidfaoedd newydd yn gyson
- Yn gweld ein Hactorion Hijinx a gweithwyr creadigol anabl eraill yn cael gyrfaoedd ffyniannus sy'n rhoi boddhad yn y diwydiannau creadigol
- Yn rym amlwg dros newid cadarnhaol mewn cymdeithas, gan yrru cynhwysiant, amrywiaeth a chynaliadwyedd amgylcheddol
- Wedi cyfrannu at adfer a chryfhau'r sector theatr a'i drawsnewidiad yn lle sy'n wirioneddol gynhwysol
- Yn gwmni gwydn yn ariannol a sefydliadol sy'n meithrin ei bobl a'u talentau

NODAU STRATEGOL AR GYFER 2023-27
Er mwyn cyflawni ein gweledigaeth, byddwn yn canolbwyntio ar bedair nod strategol yn ystod y cyfnod 2023-2027:

- Cynyddu mynediad at greadigrwydd, hyfforddiant, cyflogaeth a lleoedd
- Cynyddu ein cyrraedd a chryfhau ein heffaith
- Cynyddu'r gallu i gyflawni ein gwaith a'n potensial creadigol
- Sicrhau bod ein gwaith yn gynaliadwy, yn cefnogi cenedlaethau'r presennol a'r dyfodol a'n planed

Cofrestrwyd Hijinx yng Nghymru a Lloegr Rhif 2161783

Elusen Gofrestredig rhif 1078358

Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales

Noddir gan Lywodraeth Cymru
Sponsored by Welsh Government